

Cynhadledd: Edrych Tua'r Gorwel Rhagfyr 14

Y Gymraeg yn y Teulu

Gyda'r penderfyniad ar y Mesur Iaith yr wythnos ddiwethaf a'r cyfle yma nawr i gynllunio'n strategol ar gyfer cynyddu defnydd go iawn o'r Gymraeg ar lawr gwlad, mae'r rhain yn ddyddiau hynod o bwysig a chyffrous.

Felly, yr hyn fywsn i'n licio ei wneud am ryw chwarter awr yw ystyried cwpwl o gwestiynau am arwyddocâd y Gymraeg yn y teulu a byswn i'n licio gwneud hynny trwy ofyn yn gyntaf

Beth ry'n ni'n ei wybod ar sail ymchwil am swyddogaeth y teulu wrth geisio cynnal a bywiogi iaith leiafrifol?

Edrych yn ail wedyn ar - Beth yw rhai o'r negeseuon diweddar gan rieni yng Nghymru; beth maen nhw'n ei ddweud am y math o gefnogaeth sydd ei hangen arny'n nhw?

Yna, cyfeirio'n sydyn at beth sydd gan y Strategaeth i'w dweud – beth yw'r trywydd sy'n cael ei osod ar gyfer cryfhau'r Gymraeg yn y teulu yn ystod y cyfnod nesaf.

A chyfeirio at y cyntaf o'r cwestiynau hynny, fe wyddon ni – ar sail gwaith pobl fel Joshua Fishman – fod gan y teulu le hollol ganolog yn y broses o gynnal a bywiogi iaith leiafrifol. Mae Fishman yn pwysleisio, er enghraifft, nad oes modd hyrwyddo defnydd o'r iaith leiafrifol trwy sefydliadau ffurfiol yn unig – trwy bethe fel y gyfundrefn addysg neu'r fframwaith deddfwriaethol, yr economi neu'r cyfryngau. Er pwysiced y pethe hynny, rhaid hefyd, medde fe, sicrhau proses i drosglwyddo'r iaith o'r naill genhedlaeth i'r llall trwy'r hyn y mae Fishman yn ei alw yn *“the normal, daily, repetitive and intensely socialising and identity-forming function of home, family and neighbourhood.”*

Felly, rol allweddol y cartref, y teulu, y gymdogaeth agos wrth sicrhau defnydd o'r Gymraeg gan y genhedlaeth nesaf.

Ond fel mae Delyth Morris a Kathryn Jones yn ei ddweud mewn darn o waith a gyhoeddwyd ganddyn nhw rhyw ddwy neu dair blynedd yn ôl – mae rôl y teulu yn un reit gymhleth. Mae'r ymchwil cynnar – gwaith pobl fel Fishman – yn tueddu i synied am y broses o gymdeithasol plant bach yn yr iaith leiafrifol fel rhywbeth sy'n cael ei wneud **gan** yr oedolyn i'r plentyn. Dyna yw hanfod y term 'trosglwyddo / trosglwyddo iaith' – y rhiant yn trosglwyddo'r iaith i'r plentyn.

Ond mae gwaith mwy diweddar ym maes iaith a'r teulu - fel y dengys Delyth a Kathryn - yn awgrymu ei bod hi mewn gwirionedd yn broses llawer iawn fwy deinamig a rhyngweithiol na hynny. Fel hyn maen nhw'n crynhoi:

*“More recent studies of child language acquisition stress the interactional nature of socialization and demonstrate that infants and small children play a part in socialising **other** family members and show how a child's language acquisition is influenced by many factors other than parental decisions and wishes alone ...*

Felly, mae proses caffael iaith a phatrwm defnydd iaith y plentyn yn cael eu dylanwadu gan brofiadau y tu allan i'r cartref hefyd – yn anad dim trwy ddarpariaeth gofal ac addysg

blynyddoedd cynnar. Ac fel hyn mae Kathryn a Delyth yn sôn am y berthynas rhwng y teulu a'r gymdeithas o'i amgylch:

*An analysis of the role of the community in supporting or undermining family language practices is particularly important in the case of minority bilingual contexts since **individuals' values and practices are intimately shaped by wider power relations and ideology.***”

Felly, yr hyn sydd gyda ni yw plethwaith cymhleth iawn – y plentyn, y teulu, y gymdogaeth, y ddarpariaeth o ofal ac addysg - yn ffurfiol ac anffurfiol, yn ogystal â normau a gwerthoedd y gymdeithas ehangach - y bri neu'r diffyg bri sy'n gysylltiedig â'r iaith leiafrifol a chanfyddiad y teulu a'r plentyn o werth neu o ddiffyg gwerth yr iaith honno. Y holl bethau yna.

Mae'r berthynas rhwng y teulu, y gymdogaeth a'r gymdeithas ehangach yn un aml haenog ac felly hefyd y broses o geisio cefnogi defnydd o'r Gymraeg yn y teulu. Rydyn ni'n chwilio nid am un model neu ddull gweithredu ond am jig-so o gefnogaeth ag iddo nifer fawr o ddarnau a lliwiau a phatrymau gwahanol fydd yn amrywio yn ôl proffil iaith yr ardal ac angen gwahanol deuluoedd.

A dyna'n union y gwnaethon ni ei ddysgu wrth wneud ychydig o ymchwil ymhlith rhieni ddechrau'r flwyddyn yma. Fe fues i ynghlwm ag un darn o waith i Twf lle gwnaethon ni sampl barn 33 o rieni (nifer ohonyn nhw yn ddihyder eu Cymraeg ac yn gyndyn i'w defnyddio; nifer ohonyn nhw hefyd yn rhan o deuluoedd cymysg eu hiaith). Ac yna, tua'r un adeg mi wnes i ddarn o waith tebyg ymhlith rhieni rhai o gylchoedd meithrin Caerdydd – hwythau ar y cyfan yn rhieni di-Gymraeg. A ffocws y ddau ddarn o waith fel ei gilydd oedd edrych ar y math o gefnogaeth y mae rhieni yn ei derbyn a'r gefnogaeth ehangach y bysen nhw'n ei licio.

Rhaid cydnabod mai bychan iawn oedd y sampl yn y ddau bishyn yma o waith ond wedi dweud hynny, gwelwyd drwy'r trwch fod **agweddau** at y Gymraeg yn gynnes ac yn gryf ar y cyfan. Roedd rhieni yn gwybod am werth y Gymraeg a dwyieithrwydd, yn arbennig y rhieni hynny oedd yn rhan o'r ymchwil yn ardaloedd Twf.

Wrth bwysu a mesur eu profiadau, roedd y rhieni yn y ddau ddarn yma o waith yn cydnabod pwysigrwydd y berthynas rhyngddyn nhw a'r gymuned ehangach ac yn arbennig eu cysylltiad â'r asiantaethau a'r rhwydweithiau sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar. Felly, i'r rhiant di-Gymraeg neu'r rhiant dihyder, ymhlith y pethe oedd yn **help** iddyn nhw geisio rhoi'r Gymraeg i'w plentyn yn y cartref –roedd cefnogaeth a help teulu a ffrindiau i fedru dysgu geirfa bob dydd neu wybod sut i gyflwyno stori yn Gymraeg; effaith sesiynau ymarferol *Mae dy Gymraeg di'n Grêt* (un o gynlluniau Bwrdd yr Iaith) – yn rhoi hwb i'r rhiant dihyder fedru defnyddio mwy o Gymraeg o ddydd i ddydd; cymorth gan gylch meithrin neu ysgol gynradd sy'n barod i bontio â'r cartref a chynnwys a chefnogi'r rhiant er mwyn iddi hithau neu yntau fedru cynnal a chefnogi Cymraeg y plentyn. Yr holl bethe hynny yn help.

Ond yn anffodus, dydy'r gefnogaeth honno ddim bob amser ar gael. Ac fe gafwyd tystiolaeth gan nifer o'r rhieni y siaradais i â nhw oedd yn awgrymu i mi o leiaf bod teuluoedd yn closio at y Gymraeg weithiau ar **waetha'r system** yn hytrach nag o'i herwydd hi. Mae 'na sialens yn fan'na.

Ond, ar nodyn calonogol, beth welais i'n amlwg oedd ein bod ni yn dechrau gweld newid pwysig mewn **agweddau a chanfyddiad** rhieni o werth y Gymraeg. Mae hynny'n digwydd trwy gynlluniau fel Twf a thrwy'r shifft cyffredinol sy'n digwydd gam bwyll bach ym mhroffil a statws y Gymraeg erbyn hyn.

Felly, yn y cyfnod nesaf, mae'n siŵr bod angen cynnal y ffocws hwnnw ar hyrwyddo gwerth y Gymraeg a dwyieithrwydd. Ond bydd angen hefyd newid *gear*.

Agweddau cadarnhaol yw'r cam cyntaf; ond i hynny greu momentwm a newid go iawn, mae angen yr ail gam – **sef cymorth i droi'r agwedd bositif yn ymddygiad gweithredol**. Mewn geiriau eraill – cymorth i fedru ddefnyddio'r Gymraeg. Ac i hynny ddigwydd, mae'r dystiolaeth gan y rhieni y gwnes i siarad â nhw - yn ogystal ag ymchwil ar gynllun Twf a wnaed gan dim o Brifysgol Bangor i Fwrdd yr Iaith rai blynyddoedd yn ôl - yn awgrymu bod teuluoedd yn chwilio am gyfleoedd a help o bob math i droi eu hawydd am y Gymraeg yn ymddygiad newydd. A'r gair allweddol gan dim Bangor – y gair sy'n gyrru'r cyfan – yw **rheolaeth**.

Dyma ddywedon nhw yn yr adroddiad hwnnw i Fwrdd yr Iaith yn 2008. Mae angen medden nhw

"Lledaenu rhaglenni sy'n canolbwyntio ar wella sgiliau rhieni a'u hyder mewn defnyddio'r Gymraeg fel y bydd rhieni'n teimlo bod ganddynt yr iaith angenrheidiol i reoli trosglwyddiad iaith gyda'u plant."

Beth mae hynny'n ei olygu? Wel, mae lle pwysig i rwydweithiau a systemau cynnal lleol iawn sy'n gallu rhoi cefnogaeth i'r teulu ddysgu Cymraeg neu gymorth i'r teulu dihyder ddechrau gwreiddio'r arfer o ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant yn y cartref. Y math hwnnw o gymorth a modelu ymarferol sy'n rhoi i deuluoedd **reolaeth** dros eu penderfyniadau a'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg â mwy o hyder.

A dyma ni'n dod at y Strategaeth ... **Iaith Fyw. Iaith Byw.**

Mae 'na nifer o bethau i'w croesawu. Yn ogystal a'r ymrwymiad i adeiladu ar waith Twf yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae'r bwriad i ddatblygu **Cynllun Cyflawni'r Gymraeg** ar gyfer plant o 0 – 5 oed yn cynnig potensial wrth ddwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r sector iechyd ac addysg, y Mudiad Ysgolion Meithrin, darparwyr Cymraeg i Oedolion ac yn y blaen i gynllunio – **a gweithredu** gobeithio - yn fwy cyfannol ar draws y maes.

Dwi wrth fy modd yn gweld cyfeiriad at weithio'n nes gyda darparwyr blynyddoedd cynnar yn gyffredinol. Y cyfeiriad at ddwyn darparwyr **Dechrau'n Deg** – un o fentrau'r Llywodraeth ar gyfer plant mewn ardaloedd llai breintiedig - i fewn i'r gwaith o gynllunio ar gyfer y Gymraeg yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr. Oherwydd os rydyn ni o ddifri am weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru ac os i ni am geisio cynnig cyfle go iawn i blant a theuluoedd glosio ati, yna mae'n rhaid i'r iaith gyrraedd llefydd lle dyw hi ddim wedi bod o'r blaen.

Byswn i'n gobeithio y bydd yr **ardaloedd newydd i hybu'r Gymraeg - a'r Canolfannau Adnoddau Iaith rhanbarthol** fydd yn gysylltiedig â hynny - yn cynnig llwyfan cyffrous iawn i arbrofi â phob math o ddulliau gweithredu gwahanol a hynny ar lefel mor lleol a mor ddwys â phosib. Cyfle i wneud gwaith ar lefel *gymunedol*. Mae 'na sôn am gynlluniau i fentora teuluoedd, er enghraifft, ac am swyddogaeth bwysig y sector Cymraeg i Oedolion i ddarparu cyrsiau sydd wedi eu teilwra'n arbennig ar gyfer rhieni. Mae hynny i gyd yn addawol.

A rhaid peidio ag anghofio chwaith am botensial y sector gwirfoddol – ymhob cymdogaeth bron mae 'na unigolion â'r potensial i greu rhyw fath o **gynllun cefnogwyr blynyddoedd cynnar** – i ddwyn rhieni lleol ynghyd a'u cefnogi a'u hysbrydoli i fedru gwneud pethau syml iawn yn Gymraeg – cael hyder i fedru darllen i'w plant bach yn Gymraeg, er enghraifft.

Mae 'na sôn yn y ddogfen bod hwn yn faes lle mae **tystiolaeth ymchwil** yn brin ac mae 'na gyfeiriad yma at yr angen am fwy o ymchwil yn dilyn cyhoeddi Cyfrifiad 2011 er enghraifft.

Yn sicr ddigon, bydd angen ymchwil meintiol, caled i ddadansoddi a deall beth fydd arwyddocâd data'r Cyfrifiad o safbwynt y Gymraeg yn y teulu. Ond byswn i'n dadlau hefyd y bydd angen ymchwil ansoddol, gadarn ymhlith teuluoedd er mwyn gwneud yn hollol siŵr fod y cynllun strategol hwn yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n effro i bryderon a phrofiadau, anghenion a dyheadau rhieni eu hunain. Hynny fydd yn sicrhau ein bod ni'n gallu rhoi at ei gilydd y jig-so yna o ddarpariaeth y gwnes i sôn amdano ynghynt fydd yn ddigon amrywiol a chymysg a hyblyg i ysbrydoli a chynnal rhieni ar lawr gwlad.

I'r Strategaeth weithio ar ei gorau bydd angen i ni feddwl yn greadigol am bob math o ffyrdd i ddwyn adnoddau'r plentyn a'r teulu, y gymdogaeth anffurfiol a'r ddarpariaeth ffurfiol ynghyd, a hynny mewn cymunedau amrywiol iawn ledled Cymru. Dyna'r broses aml haenog y gwnes i sôn amdani ynghynt. Dyw e ddim yn hawdd ond mae'r Strategaeth hon yn cynnig cyfle pwysig i ddechrau adnabod a diffinio hynny'n well a dod yn barod i weithredu mewn ffyrdd hollol newydd. I feddwl y tu allan i'r bocs – i gynllunio'n lleol a gweithredu'n gymunedol.